OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 795

# Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022

**Diwygio Atodlen 12**

**7.** Yn lle paragraff 5 rhodder—

“**5.** Mae contract wedi ei drosi a oedd, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn—

(a) tenantiaeth ragarweiniol, neu

(b) tenantiaeth fyrddaliol sicr—

(i) yr oedd y landlord yn landlord cymdeithasol cofrestredig neu’n ddarparwr cofrestredig preifat o dai cymdeithasol oddi tani, ond nid cymdeithas dai gwbl gydfuddiannol neu gymdeithas dai gydweithredol, a

(ii) y mynegwyd ei bod yn denantiaeth gychwynnol, neu fel arall ei bod yn gyfystyr â hynny,

yn cael effaith fel contract safonol rhagarweiniol (gweler paragraff 23).”